




ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn

Crynodeb o'r
cynigion ar gyfer
plant a phobl ifanc





Crynodeb o'r cynigion

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwybod beth yw eich barn am y syniad o newid hawl rhieni/gofalwyr i dynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol (AG) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd. Dyma amlinelliad byr o beth mae hynny'n ei olygu. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gymryd ychydig o'ch amser i ateb y cwestiynau.

Sut y gall dysgwyr fod yn sicr o ddysgu'r holl bynciau sydd eu hangen arnynt. Beth ydyn ni am ei newid?

- Bydd yna ffordd newydd o addysgu yng Nghymru (y cwricwlwm). Mae'n cael ei lunio gan athrawon yng Nghymru.
- Mae popeth rydyn ni'n ei gynnwys wrth addysgu yn bwysig ac mae angen yr holl rannau fel bod dysgwyr yn gadael yr ysgol yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw ei wybod.
- O ran y ffordd rydych chi'n cael eich addysgu nawr, gall rhieni/gofalwyr stopio eu plentyn rhag mynd i wersi Addysg Grefyddol (AG) ac addysg rhyw. Yn y dyfodol, bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn dod yn lle addysg rhyw a bydd angen i bob plentyn 3 i 16 oed fynd i'r gwersi hynny.
- Credwn na ddylai rhieni/gofalwyr allu stopio eu plant rhag mynd i'r gwersi hyn yn y dyfodol.



- Mae hyn oherwydd bod AG ac ACRh yn bwysig iawn wrth gadw plant yn ddiogel a'u helpu i ddeall y byd o'u cwrpas.
- Rydym yn deall y gallai pobl boeni am y newid hwn.
- Yn y gwersi hyn bydd rhaid i'r wybodaeth fod yn addas ar gyfer oed, datblygiad a chefnidir y plentyn.
- Rydyn ni eisiau gwybod beth fydd yn digwydd yn eich barn chi os bydd yn rhaid i bob dysgwr fynd i wersi AG ac ACRh yn y cwricwlwm newydd.
- Rydyn ni hefyd eisiau gwybod beth yw eich barn chi am ymestyn yr ystod oedran ar gyfer addysg AG ac ACRh o 3–16.
- Rydym hefyd yn gofyn am syniadau am ai Addysg Grefyddol yw'r enw gorau ar gyfer y pwnc hwn o hyd.
- Gallwch gael mwy o wybodaeth ac anfon eich syniadau at y Llywodraeth drwy **lenwi'r ffurflen hon**.

Crynodeb yw hwn o'n cynigion

Mae'r manylion llawn yn y
ddogfen ymgynghori ar
wefan Llywodraeth Cymru



Dydyn ni ddim yn gofyn i chi am wybodaeth fydd yn dweud wrthon ni pwy ydych chi yn ôl eich atebion.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod wedi cyrraedd ystod eang o oeddrannau o Gymru gyfan, byddai o gymorth i ni pe gallech ateb y cwestiynau canlynol.

Beth yw eich oed chi?

Dewiswch eich grŵp oedran o'r rhestr isod:

10 oed ac iau	☐
11–13 oed	☐
14–16 oed	☐
17–19 oed	☐
20 oed a hŷn	☐

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad fel grŵp ieuenctid, cyngor ysgol neu senedd ieuenctid?

Ydw ☐

Nac ydw ☐



Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn – cwestiynau ymgynghori

Ticiwch y blwch perthnasol i ddweud pwy ydych chi.

Plentyn neu berson ifanc	☐
Rhiant/gofalwr	☐
Ysgol, athro/athrawes, llywodraethwr	☐
Ymarferydd addysg arall	☐
Sefydliad neu gorff cynrychioladol	☐
Unigolyn	☐
Arall – rhowch fanylion	☐

Cwestiwn 1:

Pe bai'n ofynnol i bob dysgwr gymryd rhan yng ngwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd, beth fyddai'r effeithiau ar ddysgwyr/rhieni/gofalwyr ac ysgolion?

❓ Cwestiwn 2:

Pe bai'n ofynnol i bob dysgwr gymryd rhan yng ngwersi Addysg Grefyddol (AG) yn y cwricwlwm newydd, beth fyddai'r effeithiau ar ddysgwyr/rhieni/gofalwyr ac ysgolion?

❓ Cwestiwn 3:

Pa wybodaeth, help a chefnogaeth fyddai eu hangen er mwyn i'r newidiadau hyn weithio?

❓ Cwestiwn 4:

Ein cynnig yw na fyddai gan rieni/gofalwyr plant ym Mlwyddyn 7 ac iau yr hawl i stopio eu plentyn rhag cael gwersi AG neu ACRh o fis Medi 2022.

Ydych chi'n meddwl y dylai'r rheol hon fod yn berthnasol hefyd i rieni/gofalwyr plant ym Mlwyddyn 8 ac i fyny o fis Medi 2022 ymlaen?

Dylai

☐

Na ddylai

☐

Ddim yn siŵr

☐

Pam ydych chi'n meddwl hynny?

❓ Cwestiwn 5:

Beth fyddai'n enw da ar 'Addysg Grefyddol' i ddangos y newidiadau yn y ffordd newydd o addysgu (cwricwlwm)?

Dim newid

☐

Crefyddau a
Bydolygon

☐

Crefydd, Gwerthoedd
a Moeseg

☐

Arall

☐

Rhesymau am eich dewis

❓ Cwestiwn 6:

Fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar:
i) gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Byddai

☐

Na fyddai

☐

Ddim yn siŵr

☐

Pam ydych chi'n meddwl hynny?

ii) drin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg?

Byddai

☐

Na fyddai

☐

Ddim yn siŵr

☐

Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Cwestiwn 7:

Oes yna newidiadau y gallem ni eu gwneud i'r cynllun i:
i) gynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Pa newidiadau sydd eu hangen?

ii) wneud yn siwr fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal
â'r Saesneg?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Pa newidiadau sydd eu hangen?

Cwestiwn 8:

Oes gennych chi unrhyw syniadau neu gwestiynau eraill am ACRh neu AG yr hoffech eu hychwanegu? Os oes, defnyddiwch y gofod isod i'w rhannu gyda ni: